# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL
## 25 MEDI 2017

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Llun, 25 Medi 2017.

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Geoff Collett, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Veronica Gay, Tudor Jones, Brian Lloyd, Paul Shotton a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Marion Bateman a Sean Bibby.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorwyr Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau; y Cynghorydd Ian Roberts, Aelod Cabinet Addysg, y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog (Newid Sefydliadol).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymuned ac Addysg a'r Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Pwyllgor.

## 14. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Veronica Gay gysylltiad personol yn eitem rhif 4 ar y rhaglen 'Trosglwyddo Asedau Cymunedol - Adolygu Cynnydd' gan ei bod yn aelod o Drosglwyddiad Asedau Cymunedol (TAC) Canolfan Gymunedol Sandy Lane.

Datganodd y Cynghorydd gysylltiad personol yn eitem rhif 4 ar y rhaglen 'Trosglwyddo Asedau Cymunedol – Adolygu Cynnydd' gan ei fod yn Gadeirydd Canolfan Hamdden Treffynnon ac yn Landlord Llyfrgell a chaffi Treffynnon.

## 15. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod ar 17 Gorffennaf 2017.

Holodd y Cynghorydd Dunbar a oedd diweddariad ar y cynlluniau ar gyfer Camau 3 a 4 Neuadd y Sir. Darparodd y Prif Weithredwr rywfaint o wybodaeth gefndir ac eglurodd fod Cymalau 3 a 4 Neuadd y Sir yn wag yn bennaf, ac wedi cydgrynhoi o fewn Cymalau 1 a 2. Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi rŵan i drosglwyddo'r gweithlu yma yn rhannol i Unity House, Ewlo. Roedd achos busnes ar gyfer newid darpariaeth gofod swyddfa yn cael ei ddatblygu.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 16. TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL - ADOLYGIAD O GYNNYDD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Newid Trefniadol) adroddiad a eglurodd mai hon oedd trydedd flwyddyn gweithrediad a chefnogaeth y cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC).

Mae yna rhai trosglwyddiadau asedau allweddol ar raddfa fawr, yn nodedig Pwll Nofio Cei Connah a oedd bellach yn cael ei redeg a'i reoli gan Cambrian Aquatics, ac yn fwy diweddar Canolfan Hamdden Treffynnon, sef yr ased fwyaf a mwyaf cymhleth a drosglwyddwyd hyd yma.

Roedd y Cyngor yn dal i fod wedi ymrwymo i gefnogi'r rhaglen TAC ac wedi cynnal nifer o adolygiadau blwyddyn un fel rhan o'i ymrwymiad i ddeall eu hymrwymiad parhaus a'u cyfraniad at Fuddion Cymunedol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion asedau eraill a oedd wedi bwrw ymlaen drwy gwblhau cyfreithiol neu a oedd yn cwblhau'r camau cyfreithiol terfynol. Awgrymodd y Prif Swyddog y gallai adborth gan rai o'r grwpiau yn y rhaglen CAT fod yn rhan o gyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn y dyfodol lle gallent fynd a siarad am eu prosiectau eu hunain a oedd wedi eu cefnogi.

Roedd y grwpiau yn datblygu setiau o sgiliau o fewn eu pwyllgorau lleol a oedd yn drosglwyddadwy ac a greodd wydnwch cymunedol. Roedd hwn yn gysyniad pwysig ac yn ychwanegu gwerth ar y broses TAC drwy greu cymunedau mwy gwydn a oedd yn gallu cefnogi ei gilydd drwy ddatblygu sgiliau newydd, hyder a gwybodaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Dunbar ei fod yn falch gyda'r TAC ar Bwll Nofio Cei Connah a gofynnodd sut yr oedd yn cael ei ariannu. Eglurodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol) fod cyfarfod wedi digwydd yr wythnos flaenorol gyda Cambrian Aquatics ac roedd yn falch i nodi fod cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o wersi nofio sy'n cael eu rhoi ers i'r TAC ddigwydd. Dywedodd fod y cytundeb ariannu gan y Cyngor wedi bod am dair blynedd ac roedd bellach yn ei drydedd flwyddyn. Roedd Cynllun Busnes wedi ei awgrymu am y tair blynedd nesaf ond roedd sefyllfa ariannol Cambrian Aquatics yn gadarn. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dunbar ar Randiroedd Lôn y Felin yng Nghei Connah, dywedodd y Prif Swyddog (Newid Trefniadol) fod hyn wedi ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref fel bod yr endid cyfreithiol yn bodoli gyda'r Cyngor Tref.

Croesawodd y Cynghorydd Shotton yr adroddiad a chanmol Cambrian Aquatics am y gwaith roeddynt wedi ei wneud ers y TAC, gan gyfeirio at y clwb nofio ffyniannus. Dywedodd hefyd fod cynnydd da'n cael ei wneud yng Nghlwb Ieuenctid Cei Connah. Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd Shotton, dywedodd y Prif Swyddog (Newid Trefniadol) fod cynllun 'Ein Gardd Gefn' Parc Golftyn yn rhan o gais loteri a gefnogwyd gan y Cyngor.

Croesawodd y Prif Weithredwr y cynnydd rhyfeddol oedd wedi ei wneud gyda TAC. Gwnaeth sylw ar y cynnig gan Lywodraeth Cymru (LlC) y dylid cynnal adolygiad sylfaenol ar swyddogaeth Cynghorau Tref a Chymuned. Awgrymwyd y gallai Sir y Fflint ymateb drwy nodi fod cynnal TACau YN swyddogaeth allweddol iddynt bellach oedd a gwneud cais iddynt allu tynnu ar gyllid canolog am y gefnogaeth honno.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Dylai'r Pwyllgor nodi'r adroddiad a chefnogi'r gwaith a wnaed mewn perthynas â'r rhaglen waith Trosglwyddo Asedau Cymunedol; a

(b) Dylid nodi'r swyddogaeth gefnogol y gall Trosglwyddo Asedau Cymunedol ei chyflawni wrth gefnogi Gwydnwch Cymunedol.

**17. <u>CYNLLUN Y CYNGOR 2017-23</u>**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol) adroddiad Cynllun y Cyngor 2017-23 a oedd wedi'i adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu prif flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer tymor 5 mlynedd y weinyddiaeth newydd.

Roedd strwythur y Cynllun yn parhau'r un fath â chynlluniau blaenorol a bellach yn cynnwys chwe blaenoriaeth ac is-flaenoriaethau perthnasol. Mae'r chwe blaenoriaeth yn cymryd golwg hirdymor ar brosiectau ac uchelgeisiau dros y pum mlynedd nesaf.

Cyfeiriodd at flaenoriaeth 'Cyngor wedi'i Gysylltu' a'r cysylltiadau â Throsglwyddo Asedau Cymunedol (TAC) a Modelau Cyflenwi Amgen (MCA). Roedd hwn yn gyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol ddarparu unrhyw adborth ar feysydd penodol i'r Cabinet eu hystyried cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Sir.

Dywedodd y Cynghorydd Shotton fod effaith diwygio'r gyfundrefn les yn bryder iddo yn ogystal â mynediad at wasanaethau digidol. Roedd Credyd Cynhwysol yn system ar lein felly croesawodd y mesur ar 'Cyngor Cefnogol: Diogelu pobl rhag tlodi' o *Gyflawni Cyllidebau Personol a Gwasanaethau Cefnogaeth Ddigidol'* a oedd yn ymwneud ag effaith lleol cyflwyno'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn.*'*

Ar 'Cyngor Cefnogol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Integredig', teimlai'r Cynghorydd Jones y dylid dileu'r geiriau 'yn y cartref' o Effaith 1) Galluogi mwy o bobl i fyw'n annibynnol ac yn dda yn y cartref, gan nodi esiamplau lle'r oedd pobl yn byw'n annibynnol ac yn dda, ond nid o reidrwydd yn y cartref, ond mewn lleoedd fel Llys Jasmine. Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd y geiriau 'yn y cartref' yn llythrennol a chydnabuwyd mai mater personol oedd i bobl ddewis ble i fyw.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Jones, eglurodd yr Aelod Cabinet Addysg, mewn perthynas â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCMA), roedd yn bwysig fod ysgolion presennol yn parhau'n hyfyw ac yn anelu at wella, ynghyd â'r nod i gynyddu nifer y cyfleusterau lle'r oed d y Gymraeg yn cael ei darparu.

Ar 'Cyngor Gwyrdd: Datblygu Cynaliadwy a Rheoli Amgylcheddol', Adran 3: Cynyddu potensial asedau'r Cyngor am effeithlonrwydd ynni, dywedodd y Cynghorydd Jones nad oedd unrhyw gyfeiriad at sut y byddai defnydd o ynni yn cael ei leihau. Eglurodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol) y broses o reoli systemau ar y campws, rhai ohonynt yn cael eu gweithredu o bell ac roedd yn bwysig fod gweithwyr yn ymwybodol o'r neges 'dim cost / cost isel' Cytunwyd y byddai'r geiriau 'Rheoli / lleihau defnydd y Cyngor o ynni ac felly costau' yn cael eu hargymell i'r Cabinet eu hystyried.

Ar 'Cyngor sy'n Gwasanaethu: Gwella Rheolaeth Adnoddau, Adran 5: Strategaeth Ddigidol a Strategaethau Cwsmeriaid, gwnaeth y Cynghorydd Jones sylw ar y problemau parhaus oedd yn wynebu pentrefi yn ei ward wrth geisio cael mynediad i'r rhyngrwyd. Roedd nifer o fusnesau'n gweithredu yn yr ardaloedd hynny ac yn dibynnu ar gysylltu â'r rhyngrwyd nad oedd yn bosibl ei gael ar hyn o bryd. Dywedodd y Prif Weithredwr fod barn debyg wedi ei mynegi mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ac y dylai'r Cyngor fod yn fwy dylanwadol o ran y darparwyr isadeiledd a rhwydweithiau.

Cytunodd y Cynghorydd Gay â barn y Cynghorydd Jones a nododd fod y gwasanaethau yn anghyson yn Saltney oherwydd bod y ffin mor agos. Teimlai y dylai fod gan bobl fynediad i'r rhyngrwyd fan lleiaf.

Cytunodd y byddai'r geiriau 'Gwell mynediad i isadeiledd digidol i gartrefi a busnesau ar draws y Sir' yn cael eu hargymell i'r Cabinet eu hystyried.

Croesawodd y Cynghorydd Dunbar yr adroddiad a'r blaenoriaethau a'r is-flaenoriaethau. Ar 'Cyngor Cefnogol: Cartrefi Priodol a Fforddiadwy', holodd a oedd unrhyw gynnydd wedi bod ar gyflawni dewisiadau ar gyfer cynlluniau tai rhent isel newydd ac arloesol ar gyfer pobl dan 35 oed. Ymatebodd y Prif Weithredwr gan ddweud eu bod yn archwilio datrysiadau creadigol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dunbar, eglurodd y Prif Weithredwr eu bod yn dal i edrych ar opsiynau ar sut y gellid dargyfeirio ynni o baneli solar y Cyngor ei hun i Alltami er mwyn i gerbydau trydanol eu defnyddio.

Ar 'Cyngor Uchelgeisiol: Twf y Sector Busnes ac Adfywio', nododd y Cynghorydd Dunbar bwysigrwydd y flaenoriaeth hon i ddiogelu'r buddsoddiad sydd ei angen mewn isadeiledd ar gyfer twf rhanbarthol a lleol.

Mynegodd y Cynghorydd Gay bryderon ar y Cynllun Moderneiddio Ysgolion a gofynnodd am sicrwydd fod Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn Saltney wedi'i chynnwys yn y cynllun hwnnw. Eglurodd y Prif Weithredwr mai Ysgol Uwchradd Dewi Sant oedd y flaenoriaeth gyntaf am gyllid ym Mand B.

Diolchodd y Cynghorydd Mullin Aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniad at Gynllun y Cyngor gyda dau ychwanegiad a fyddai'n cael eu hystyried gan y Cabinet y diwrnod canlynol cyn y Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y pwyllgor yn cefnogi strwythur, fformat a chynnwys fersiwn "gyhoeddus" Cynllun (Gwella) y Cyngor ar gyfer 2017-23; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r targedau a'r cerrig milltir yn y ddogfen Mesurau a Cherrig Milltir (atodiad 2) ynghlwm â Chynllun (Gwella) y Cyngor 2017-23 gyda'r sylwadau canlynol i'r Cabinet eu hystyried:

- Blaenoriaeth: Cyngor Gwyrdd
  Adran 3: Cynyddu potensial asedau'r Cyngor am effeithlonrwydd ynni: *Rheoli / lleihau defnydd y Cyngor o ynni ac felly costau. Ychwanegiad i'r cynnwys:*

- Blaenoriaeth: Cyngor sy'n Gwasanaethu
  Adran 5: Strategaeth Ddigidol a Strategaethau Cwsmeriaid: *Gwell mynediad i gartrefi a busnesau ar draws y Sir at isadeiledd digidol. Ychwanegu mater cenedlaethol ar ddatblygu isadeiledd, fuddsoddiad y Llywodraeth, a pherfformiad cyflenwyr. Ychwanegiad i'r cynnwys:*

## 18. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedol ac Addysg yr adroddiad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a oedd wedi cael ei ddiweddaru ar ôl cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

Awgrymwyd y dylid trefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor i dderbyn Cam 1 y gyllideb a chytunwyd ar hyn.

Awgrymodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol) y dylid gwahodd Newydd ac Aura i ddod i gyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn. Byddai un cyfarfod yn derbyn adolygiad canol blwyddyn, gan roi esiamplau o arfer da, gyda'r ail yn gyfle i'r Pwyllgor dderbyn eu Cynlluniau Busnes am y flwyddyn i ddod. Cefnogwyd hyn.

Awgrymodd y Prif Swyddog hefyd y dylid neilltuo dau slot i'r Model Cyflenwi Amgen (MCA) Gofal Cymdeithasol. Nod y cyfarfod cyntaf fyddai derbyn gwiriad canol blwyddyn ar eu perfformiad yn ystod y flwyddyn gydag esiamplau o arferion da, a byddai'r ail gyfarfod yn gyfle i'r Pwyllgor dderbyn Cynllun Busnes am y flwyddyn i ddod. Wrth gefnogi'r awgrym hwnnw, cytunwyd hefyd y dylid gwahodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd i ddod i'r cyfarfod ar gyfer yr adolygiad MCA Gofal Cymdeithasol, a oedd wedi ei drefnu ar hyn o bryd ar gyfer 27 Tachwedd, gan nodi y gallai'r dyddiad newid.

Awgrymwyd a chytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolydd y Cambrian Aquatics i'r cyfarfod ar 29 Ionawr 2018 ac y dylid cynnal y cyfarfod yn un o'r lleoliadau Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC).

Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Prif Weithredwr BT i gyfarfod yn y dyfodol i egluro strategaeth ehangach Open Reach i Aelodau, yn dilyn pryderon blaenorol a fynegwyd am fynediad digidol mewn rhannau gwledig o'r Sir. Awgrymodd y Cynghorydd Jones y dylid trefnu hyn ar ôl i Lywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi ei ganfyddiadau yn dilyn ymarferiad ymgynghori diweddar ar anghenion band eang, a fyddai'n hysbysu cam nesaf cyflwyno'r gwasanaeth a fydd yn digwydd ddechrau 2018.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diwygio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i adlewyrchu'r eitemau a gytunwyd arnynt; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**19. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod gan fod yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried yn wybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 14 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**20. ADOLYGU MODEL DARPARIAETH AMGEN HAMDDEN A LLYFRGELLOEDD**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol) yr adroddiad Adolygu'r Model Darparu Amgen Hamdden a Llyfrgelloedd a oedd yn adolygu trefniadau sefydlu Aura Leisure and Libraries Ltd a ddechreuodd weithredu Gwasanaethau Hamdden, Llyfrgelloedd a Threftadaeth y Cyngor o 1 Medi 2017.

Dyma rai o atodiadau'r adroddiad:

- Yr adroddiad grymoedd dirprwyedig terfynol wedi'i lofnodi i gymeradwyo sefydlu;
- Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyngor Sir y Fflint ac Aura Leisure and Libraries Ltd.; a
- Y Cytundeb Ariannu rhwng Cyngor Sir y Fflint ac Aura Leisure and Libraries Ltd.

Roedd Rheolwr Gyfarwyddwr Aura yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau a diolchodd i'r Pwyllgor am y gwahoddiad i'r cyfarfod. Dywedodd fod llawer o waith wedi ei wneud a chyfeiriodd at y berthynas gefnogol a phositif gyda'r Cyngor.

Croesawodd yr Aelod Cabinet Addysg yr adroddiad a dywedodd ei fod yn esiampl dda o bartneriaeth bositif.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dunbar, dywedodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol) fod y strwythur hwn yn rhoi mwy o sicrwydd i lyfrgelloedd llai o faint.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi a chefnogi'r gwaith oedd wedi ei wneud i sefydlu Model Cyflenwi Amgen (MCA) yn y Gwasanaethau Hamdden, Llyfrgelloedd a Threftadaeth.

**21. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.57am)

................................................

**Cadeirydd**